

Cyflawni Strategaeth Amgueddfeydd Cymru



Llun trwy garedigrwydd Prifysgol Caerdydd

**Rachael Lovering
Sarah Daly**

Mawrth 2012

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol

Rhan 1 Prosiect Ymgynghori

- 1.1 Model o'r prosiect
- 1.2 Ymgysylltu ag Amgueddfeydd
- 1.3 Prif Ganfyddiadau
 - 1.3.1 Cyfathrebu
 - 1.3.2 Cyfarfodydd Rhanbarthol
 - 1.3.3 Amgueddfeydd i Bawb
 - 1.3.4 Casgliad i'r Genedl
 - 1.3.5 Gweithio'n effeithiol (ymgysylltu ag amgueddfeydd)
 - 1.3.6 Cymryd rhan mewn Cynlluniau Cenedlaethol
- 1.4 Dadansoddi Anghenion Hyfforddi
- 1.5 Adeiladu Partneriaethau
- 1.6 Adnoddau Ar-lein
- 1.7 Cyflwyno yn erbyn model rhesymeg

Rhan 2 Gweithgareddau Mudiadau'r Sector yng Nghymru

- 2.1 Cyflwyniad
- 2.2 Methodoleg
- 2.3 Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Celf Cymru
- 2.4 CyMAL
- 2.5 Amgueddfa Cymru
- 2.6 Amgueddfeydd yng Nghymru (drwy gynllun grantiau CyMAL)
- 2.7 Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- 2.8 Partneriaethau
- 2.9 Eraill

Rhan 3 Argymhellion

- 3.1 Cyfathrebu
- 3.2 Adnoddau Ar-lein
- 3.3 Cyfleoedd cyllido
- 3.4 Eiriolaeth
- 3.5 Partneriaethau
- 3.6 Hyfforddiant
- 3.7 Cynllun Gweithredu'r Strategaeth (2010-2015)
 - 3.7.1 Camau i'w hystyried pan ddiwygir y cynllun
 - 3.7.2 Argymhellion penodol

Tablau

1. Ymgysylltu â phrosiect cyflawni'r strategaeth
2. Crynodeb o weithgarwch cysylltiedig ag amgueddfeydd

3. Amgueddfeydd i Bawb
4. Casgliad i'r genedl
5. Gweithio'n effeithiol
6. Cymryd rhan mewn cynlluniau cenedlaethol
7. Dulliau hyfforddi
8. Cyflwyno yn erbyn model rhesymeg

Atodiadau

1. Model Rhesymeg
2. Amserlen
3. Cynllun Cyfathrebu
4. Cynllun Cyfarfodydd Rhanbarthol
5. Cwestiynau'r arolwg ar-lein
6. Dadansoddi anghenion hyfforddi
7. Eitem nodwedd YMAG
8. Cais Amlinellol i Gronfa Casgliad Esmée Fairbairn Cymdeithas yr Amgueddfeydd

Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar y gwaith a wnaed i roi Strategaeth Amgueddfeydd Cymru ar waith ers iddi gael ei chyhoeddi gan CyMAL yn 2010. Y briff ar gyfer elfen ymgynghorol y prosiect hwn, a reolir gan Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru (FMAGW) ac a ariennir gan CyMAL a FMAGW, oedd gyrru'r strategaeth ymlaen. Yr oedd y ffocws yn bennaf ar feysydd dan arweiniad amgueddfeydd unigol. Yr oedd y prosiect ymgynghori hefyd yn canolbwyntio ar feysydd dan arweiniad partneriaid allweddol: FMAGW, CyMAL ac Amgueddfa Cymru (AC-NMW) ac ar sefydlu partneriaethau newydd yng Nghymru a thu hwnt. Bu'r prosiect hwn yn rhedeg o fis Hydref 2011 i fis Mawrth 2012.

Yn ogystal â hyn, mae'r holl bartneriaid sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r strategaeth wedi gwneud gwaith y tu allan i'r ymgynghoriad. Mae rhan gyntaf yr adroddiad hwn felly'n canolbwyntio ar yr hyn y mae'r prosiect ymgynghori wedi'i gyflawni, a'r ail yn edrych ar yr hyn a gyflawnwyd gan bartneriaid allweddol o ran cyflwyno'r strategaeth. Mae rhan tri'n canolbwyntio ar argymhellion ar gyfer rhoi'r strategaeth ar waith i'r dyfodol, yn seiliedig ar ganfyddiadau'r prosiect ymgynghori a gwaith partneriaeth arall, tuag at gyflawni'r strategaeth. Mae'r gwaith ymgynghori yn awr yn cael ei ariannu gan CyMAL i barhau o fis Mai hyd fis Rhagfyr 2012 a bydd yr argymhellion hyn yn goleuo'i barhad.

Rhan 1 Prosiect Ymgynghori Methodoleg

Y dull gweithredu a ddefnyddiwyd o ran y briff o yrru'r strategaeth amgueddfeydd ymlaen oedd sicrhau gymaint o gysylltiad â phosibl â staff a gwirfoddolwyr gwasanaethau amgueddfeydd ac amgueddfeydd unigol ledled Cymru. Y nod oedd darparu ystod o gyfleoedd ystyrlon iddynt roi adborth ar y ffordd y maent eisoes yn cwrdd â chymau'r strategaeth a pha gefnogaeth ychwanegol sydd ei hangen arnynt i'w galluogi i wneud hynny.

Lluniwyd arolygon ar-lein (a chyfweliadau dros y ffôn) i asesu hyder amgueddfeydd o ran polisi ac ymarfer, mesur lefel y prosiectau oedd yn cael eu cynnal a sefydlu meysydd lle yr oedd angen cymorth pellach. Yr oedd y rhain hefyd yn gofyn i amgueddfeydd am feysydd yr oeddent yn barod i rannu dysgu ynddynt ac am ymwybyddiaeth a chyfranogaeth o ran cynlluniau cenedlaethol. Rhoddodd cyfarfodydd gyfle i staff yr amgueddfeydd drafod y strategaeth yn fwy manwl a chynnig enghreifftiau o waith y maent yn ymgymryd ag ef i gwrdd â'r strategaeth neu â meysydd lle y mae angen cefnogaeth arnynt.

Cafodd yr wybodaeth a gasglwyd gan ddefnyddio'r fethodoleg hon ei defnyddio i ddarparu'r wybodaeth a'r dadansoddiad ar gyfer yr adroddiad hwn. Mae enghreifftiau penodol yn anecdotaidd ac yn dod o dystiolaeth a gasglwyd mewn cyfarfodydd neu drwy arolygon a chyfweliadau.

Yr oedd y briff hefyd yn cynnwys yr angen i godi proffil y strategaeth y tu hwnt i ffiniau Cymru, datblygu partneriaethau ac edrych ar ffyrdd i rannu arfer da sydd eisoes yn digwydd mewn amgueddfeydd yng Nghymru. Yr oedd creu adnodd ar-lein i amgueddfeydd ei ddefnyddio hefyd yn rhywbeth yr oedd angen edrych arno, ynghyd â chyfleoedd ariannu.

Ymgysylltu ag Amgueddfeydd

Drwy gyfrwng cyfarfodydd rhanbarthol, arolwg ar-lein, arolwg dros y ffôn a gohebiaeth e-bost sylweddol, cafodd barn 65 o amgueddfeydd achrededig eu bwydo i mewn i'r adroddiad hwn, ynghyd â barn 15 o sefydliadau eraill (rhai ohonynt yn gweithio tuag at achrediad). Ystyrir y ffaith bod amgueddfeydd sydd heb eu hachredu yn ymgysylltu â'r strategaeth yn arwydd cadarnhaol. Gobeithir y bydd rhai o'r amgueddfeydd hyn sydd heb eu hachredu yn cael eu hannog i geisio achrediad o ganlyniad.

Dadansoddi Anghenion Hyfforddi

Yr oedd asesu anghenion hyfforddi yn rhan allweddol o ymgysylltu ag amgueddfeydd yn y prosiect ymgynghori. Roedd hyn yn hanfodol i sicrhau bod y strategaeth yn cyflawni buddion ymarferol i amgueddfeydd unigol yn ogystal â sicrhau bod camau unigol y strategaeth yn cael eu cyflawni'n effeithiol ar lefel leol. Y tri angen pennaf a nodwyd o ran hyfforddiant oedd:

- Datblygu a rheoli
- Gofalu am Gasgliadau
- Polisi a Chynllunio

O ran dulliau, nodwyd mai **cyngor ac arweiniad** oedd fwyaf defnyddiol ac mae'r hen ddull traddodiadol o **gwrs/gweithdy hyfforddi**'n parhau'n boblogaidd iawn. Roedd llawer o bobl hefyd o'r farn bod **adnoddau ar-lein** yn opsiwn defnyddiol, yn enwedig ar gyfer rhannu polisiau, cynlluniau ac astudiaethau achos prosiectau.

Adeiladu Partneriaethau a Chanfod Cyfleoedd Cyllido

Mae'r prosiect ymgynghori wedi adeiladu ar bartneriaethau presennol o ran cyflwyno'r strategaeth ar draws Cymru, edrych am ffyrdd newydd i'r partneriaethau hyn gyflwyno camau'r strategaeth a hyrwyddo'r nod o wella gwasanaethau o ran y tair egwyddor arweiniol sef:

- Amgueddfeydd i Bawb
- Casgliad i'r Genedl
- Gweithio'n Effeithiol

Yn ogystal, sefydlwyd neu cryfhawyd partneriaethau gyda sefydliadau y tu hwnt i Gymru. Yr oedd eiriolaeth yn ffactor allweddol arall yn yr elfen hon o'r prosiect. Hefyd ceisiwyd cyfleoedd i godi incwm ychwanegol ar gyfer y sector o ffynonellau allanol. O ganlyniad, cyflwynwyd cais i Gronfa Casgliadau Esmée Fairbairn Cymdeithas yr Amgueddfeydd.

Adnoddau Ar-lein

Rhan allweddol o'r briff oedd edrych ar opsiynau ar gyfer darparu adnodd ar—lein cost isel i amgueddfeydd a chanfod pa ddogfennau oedd gan amgueddfeydd i'w rhannu ac ym mha feysydd yr oedd angen cefnogaeth arnynt. Aseswyd gwefan FMAGW (<http://www.welshmuseumsfederation.org>) i weld a allai gynnal y math hwn o adnodd.

Prif ganfyddiadau:

- Mae llawer o waith eisoes yn digwydd o ran cyflwyno'r strategaeth mewn amgueddfeydd ledled Cymru a brwdfrydedd sylweddol ynghylch manteision ymgysylltu â'r strategaeth.
- E-bost yw'r dull cyfathrebu sydd orau gan y rhan fwyaf o bobl a byddai adnoddau ar-lein yn ogystal â dulliau hyfforddi traddodiadol yn cael eu croesawu.
- Roedd <http://www.welshmuseumsfederation.org/> yn amlwg iawn fel dull hygyrch o gyfathrebu ar gyfer gwaith ar y strategaeth, ond mae angen cyfeirio pobl ato.
- Canfu unigolion o amgueddfeydd ei bod yn ddefnyddiol iawn cyfarfod â'i gilydd a chael cyfle i rwydweithio a rhannu gwybodaeth, profiadau ac amser i drafod y strategaeth.
- Roedd gallu cael gafael ar adnoddau megis astudiaethau achos a dogfennau enghreifftiol ar-lein yn ogystal â dulliau mwy traddodiadol o hyfforddi yn bethau fyddai'n cael eu croesawu gan amgueddfeydd.

Canlyniadau allweddol:

- Mae darlun manwl o farn, llwyddiannau ac anghenion 80 o amgueddfeydd a sefydliadau eraill ar draws Cymru wedi dod i'r golwg.
- Mae'r Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddi yn bwydo i mewn i raglen hyfforddi CyMAL ar gyfer 2012/13.
- Sesiwn ar gyflwyno'r strategaeth wedi'i derbyn yng Nghynhadledd Cymdeithas yr Amgueddfeydd 2012.
- Cais am gyllid o £100,000 i weithio ar gasgliadau gwyddorau naturiol ledled Cymru wedi'i gyflwyno i Gronfa Casgliadau Esmée Fairbairn Cymdeithas yr Amgueddfeydd.
 - Bwriedir cael adnodd ar-lein ar gyfer <http://www.welshmuseumsfederation.org> gyda dolen i astudiaethau achos a dogfennau enghreifftiol y gall amgueddfeydd eu llwytho oddi ar y we.

Rhan 2 Gweithgareddau Partneriaid

Mae CyMAL, FMAGW ac AC-NMW i gyd wedi gweithio ar gyflwyno'r strategaeth yn annibynnol ar y prosiect ymgynghori ac mae cyrff eraill hefyd wedi cyfrannu. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn edrych ar yr hyn a gyflawnwyd yn erbyn pob maes strategaeth.

Cyflawniadau allweddol

- Cyhoeddi strategaeth a phhecyn eiriolaeth gan FMAGW.
- Derbyn sesiwn yng nghynhadledd Cymdeithas yr Amgueddfeydd 2012, dan gadeiryddiaeth FMAGW, ynghylch partneriaethau o ran cyflwyno'r strategaeth.
- Trefnodd FMAGW gynhadledd ar Amgueddfeydd a Chymunedau a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ym mis Mawrth 2012. Mae AC-NMW yn defnyddio'r strategaeth i oleuo rhannau sylweddol o'i waith datblygu dan y tair egwyddor arweiniol.
- Mae AC-NMW wedi cynhyrchu gwybodaeth ar y we am gynaliadwyedd.
- Rhaglen hyfforddi AC-NMW ar Reoli Casgliadau ar gyfer y sector wedi dechrau ym mis Medi 2011.
- Lanswyd cynllun newydd Cyfoeth Cymru Gyfan ym mis Tachwedd 2011 mewn partneriaeth â CyMAL, AC-NMW a HLF.
- Mae CyMAL wedi darparu hyfforddiant ar sawl maes allweddol a nodwyd yn y strategaeth ac yn gweithio ar adnoddau ar gyfer rhai lle bo angen, gan gynnwys mynediad, gwirfoddolwyr, arwyddocâd casgliadau a chynnwys sy'n angenrheidiol mewn rhaglen rheoli casgliadau.

- Mae CyMAL wedi cefnogi'r prosiect Diogelu Treftadaeth Cymunedau Lleol (CLOCH) a recriwtiwyd y pedwar Hyfforddai cyntaf ym mis Ionawr 2012.
- Mae cynllun grantiau CyMAL yn amhrisiadwy o ran darparu cyllid ar gyfer amgueddfeydd/partneriaid unigol a phartneriaethau i gynnal prosiectau sy'n cyflawni camau gweithredu'r strategaeth.

Mae'r ystod o bartneriaethau yn dangos ymrwymiad y sector amgueddfeydd yng Nghymru, a'r holl sefydliadau partner, i gyflawni amcanion y strategaeth a rhoi'r camau gweithredu ar waith.

Argymhellion allweddol:

- Parhau i hyrwyddo ac i roi cyhoeddusrwydd i'r strategaeth ar draws y sector amgueddfeydd yng Nghymru a thu hwnt.
- Datblygu cynllun 'cyfeillio' i alluogi amgueddfeydd i weithio mewn ffordd anffurfiol ond manwl gyda chymheiriaid ar feysydd allweddol sydd o ddi-ddordeb cyffredin iddynt.
- Adeiladu ar y berthynas â'r amgueddfeydd hynny sydd wedi ymgysylltu â'r prosiect ar ffurf gwybodaeth berthnasol barhaus drwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth ar gyfer Amgueddfeydd a <http://www.welshmuseumsfederation.org>
- Nodi elfennau strategaeth sy'n galw am gyllid a chanfod ffynonellau cyllid eraill ar gyfer prosiectau partneriaeth o fewn y gymuned amgueddfeydd.
- Ehangu gwaith partneriaeth ac eiriolaeth yng Nghymru a thu hwnt.
- Sicrhau bod <http://www.welshmuseumsfederation.org> yn gyfrwng i hyrwyddo'r gwaith mae amgueddfeydd yn ei wneud a'i fod yn cael ei ddiweddarau'n gyson.
- Asesu'r adnodd ar-lein i weld a fyddai buddsoddi mewn system rheoli dogfennau yn gam sy'n werth ei gymryd.

Casgliad:

Mae cael strategaeth amgueddfeydd genedlaethol yn rhoi Cymru mewn sefyllfa gref. Mae'n golygu bod y sector yn unedig a bod ganddo lais clir. Mae'r prosiect ymgynghori wedi dangos bod amgueddfeydd eisoes yn ymgysylltu â'r strategaeth ac yn ei defnyddio fel sail ar gyfer eu gwaith. Yn ddiamau, mae wedi hwyluso partneriaethau yng Nghymru a thu hwnt gan ei bod yn darparu fframwaith eglur â ffocws clir i weithio oddi mewn iddo. O ran partneriaethau o fewn amgueddfeydd yng Nghymru, mae'n ei gwneud yn haws sefydlu partneriaethau o'r fath gan fod ymrwymiad eisoes o fewn y sector i egwyddorion allweddol y strategaeth.

Roedd y cyfarfodydd rhanbarthol i hwyluso trafodaethau ynghylch y strategaeth yn gyfleoedd delfrydol i arddangos brwdfrydedd, dyfeisgarwch a chreadigrwydd y sector amgueddfeydd yng Nghymru. Er gwaethaf hinsawdd economaidd lom, mae amgueddfeydd yn awyddus i gyfarfod â'i gilydd, rhannu profiadau a dysgu am ffyrdd newydd o gyflwyno prosiectau. Maent yn bendant fod y strategaeth yn gweithredu fel canllaw ar gyfer eu gwaith ac maent wedi ymrwymo i'w defnyddio i wneud eu hamgueddfeydd yn fwy hygyrch a chyffrous ar gyfer y rhai sy'n ymweld â nhw.

Rhoddodd yr arolwg ar-lein giplun o sefyllfa amgueddfeydd o ran cyflawni'r strategaeth a lle mae arnynt angen cymorth ychwanegol. Nid yw'n syndod bod y darlun hwn yn amrywio, ond mae'n amlwg bod gan bob amgueddfa rywbeth i'w gyfrannu yng nghyswllt ei pholisïau a'i harferion ei hun a bod gan bob amgueddfa rywbeth i'w ddysgu, waeth be fo'i maint a'i strwythur na sut y caiff ei llywodraethu.

Mae nifer o heriau yn wynebu amgueddfeydd ar y funud, gan gynnwys llai o staff a chyllid craidd. Mae rhai hyd yn oed yn wynebu bygythiad i'w cau, naill ai'n gyfan gwbl neu yn rhannol. Tynnodd y prosiect cyflawni sylw at feysydd o bryder ac o angen, yn ogystal â chanolbwyntio ar y llwyddiannau niferus sydd i'w dathlu. Mae amgueddfeydd yn ymwybodol bod cyfranogi yn y strategaeth yn dangos eu gwerth a'u hatebolrwydd. Mae'r dull gweithredu cydlynol o ymdrin â phroblemau mae'r sector yn eu hwynebu yn golygu nad yw amgueddfeydd Cymru yn wynebu'r heriau hyn ar eu pennau eu hunain.

Mae'r ffaith fod cyrff o bob rhan o Gymru wedi ymuno i greu ac i weithredu strategaeth amgueddfeydd yn dangos ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth. Mae hefyd yn golygu bod gan y sector lawer mwy o hyblygrwydd wrth ymateb i heriau ac yn cryfhau ei sefyllfa o safbwynt gwleidyddol. Mae'n golygu ei bod yn hawdd canfod a sefydlu'r partneriaethau cywir pan mae cyfleoedd i gael cyllid yn codi. Mae'n golygu bod modd cysylltu a chyfathrebu ar draws y sector yn gyflym, a bod y cyswllt hwnnw wedi ei gyfeirio'n gymwys. Pan geir trafodaethau am faterion sy'n effeithio ar amgueddfeydd ar raddfa ehangach, mae modd mynegi barn awdurdodol ynghylch sefyllfa'r sector fel corff yng Nghymru.

Mae'r strategaeth yn creu sylfaen gadarn i amgueddfeydd adeiladu arni ar gyfer y dyfodol. Nid yw'n aros yn ei hunfan, ond, yn hytrach, mae'n addasu ac yn ymateb i newidiadau yn y tirlun economaidd a gwleidyddol. Yn yr un modd, gall amgueddfeydd ei defnyddio i ymateb i'w hanghenion eu hunain ac i anghenion eu cymunedau hefyd.

I'r bobl hynny sy'n byw yng Nghymru neu sy'n ymweld â hi, mae dull gweithredu gwirioneddol strategol yn bodoli yng nghyswllt rhannu a gofalu am dreftadaeth y genedl. Mewn cyfnod lle mae adnoddau dan fwy a mwy o bwysau, gall amgueddfeydd ddangos eu bod yn defnyddio'r adnoddau hyn yn ddoeth ac er mwyn sicrhau canlyniadau amlwg i'r cyhoedd.

Mae'r adroddiad llawn ar gael yn Saesneg ar wefan FMAGW, sef:
http://welshmuseumsfederation.org/index.php?page=test&hl=en_US

Mae crynodeb byr o'r adroddiad hwn i CyMAL ar gael (yn Gymraeg ac yn Saesneg) ar eu gwefan, sef:
<http://wales.gov.uk/topics/cultureandsport/museumsarchiveslibraries/cymal/museums/strategy/>

Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Celf Cymru